Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Perfformiad**
Dyddiad y cyfarfod	**24 Tachwedd 2022**
Aelod / Swyddog Arweiniol	**Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol** **Nicola Kneale, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio Dros Dro**
Awdur yr adroddiad	**Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio a Pherfformiad**
Teitl	**Diweddariad Hunanasesiad Perfformiad, Chwarter 2, 2022 i 2023**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch perfformiad y Cyngor yn erbyn ei swyddogaethau ar ddiwedd chwarter 2, 2022 i 2023, gan gynnwys amcanion y Cynllun Corfforaethol a Chydraddoldeb Strategol, a'r saith maes llywodraethu allweddol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae adroddiadau rheolaidd yn un o ofynion monitro hanfodol Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor. Caiff adroddiadau perfformiad chwarterol eu rhannu'n rheolaidd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cabinet a Chraffu Perfformiad, er mwyn cefnogi trafodaeth adeiladol ynghylch ein perfformiad a nodi ymyraethau, lle bo angen.

2.2 Mae'r adroddiadau perfformiad chwarterol hyn nawr yn casglu tystiolaeth sy'n ffurfio rhan o'n Hunanasesiad o berfformiad yn erbyn ein swyddogaethau, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Argymhellir bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried a darparu sylwadau ar yr adroddiad ac yn cytuno ar unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i ymateb i unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â pherfformiad a amlygir yn yr adroddiad.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'r adroddiad sydd wedi'i gynnwys yn atodiad 1 yr ail o bedwar diweddariad Hunanasesiad Perfformiad a gynhyrchir yn ystod y flwyddyn ar gyfer hunanasesu ein perfformiad yn erbyn darpariaeth ein swyddogaethau, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ar y cyfan, cyflwynir yr adroddiad mewn dau ran sy'n ceisio amlinellu cynnydd yn erbyn y meysydd allweddol canlynol:

1. **Amcanion Perfformiad** – sy'n cynnwys Amcanion ein Cynllun Corfforaethol / Cydraddoldeb Strategol (sydd hefyd yn ffurfio ein Hamcanion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

2. **Meysydd Llywodraethu** – saith maes llywodraethu sydd wedi'u pennu ymlaen llaw gan y canllawiau statudol ar berfformiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

4.2 Caiff bob adroddiad Diweddaru Hunanasesiad Perfformiad chwarterol gennym eu rhannu â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad (cyflwynir chwarter dau a phedwar i'r pwyllgorau). Caiff adroddiadau chwarter 4 hefyd eu rhannu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor Sir, gan gynnwys Crynodeb o Hunanasesiad ar gyfer y flwyddyn. Dylid ystyried ein hadroddiadau fel adnoddau i gefnogi trafodaeth adeiladol, agored a gonest ynghylch ein perfformiad, gan helpu i adnabod arferion da a meysydd ar gyfer ymyrraeth neu graffu pellach.

4.3 Yn yr adroddiad hwn, darperir crynodeb o ddiweddariadau prosiect a data, ynghyd â thablau data sy'n rhoi amlinelliad llawn o'n sefyllfa bresennol. Cyflwynwyd gweithgareddau diweddar y cyngor hefyd sy'n dangos ein bod yn cefnogi Deddf

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

4.4 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 (sydd hefyd yn nodi ein Hamcanion Cydraddoldeb) yn nodi ein cyfeiriad strategol ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd, a seiliwyd yn bennaf ar brosiectau a nodwyd bryd hynny fel rhan o'r dulliau rhaglen a ddefnyddiwyd gennym. Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau hynny bellach wedi dod i ben neu wedi'u cynnwys mewn gweithgareddau busnes arferol, a chan fod y Cynllun Corfforaethol newydd wedi'i gymeradwyo ym mis Hydref 2022, yr adroddiad a gyflwynwyd yn atodiad 1 yw'r olaf a fydd yn seiliedig ar y fframwaith.

4.5 Datblygir fframwaith y Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2022 i 2027 gan y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, mewn trafodaeth â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cabinet ac arweinwyr gwasanaethau allweddol. Bydd ein hadroddiad diweddaru nesaf (chwarter 3) yn darparu naratif ar ein cynnydd (yn ogystal â pharhau i fodloni'r hyn sydd ei angen o ran ein proses hunanasesu). Bydd adrodd a meincnodi yn erbyn y fframwaith newydd yn dechrau'n iawn yn chwarter 4, mis Ionawr i fis Mawrth, a bydd yn cael ei gynnwys yn ein Diweddariad Hunanasesiad Perfformiad terfynol ar gyfer y flwyddyn.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am ein cynnydd wrth gyflawni Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017 i 2022. Fodd bynnag, dylai unrhyw benderfyniadau a wnaed yn seiliedig ar gynnwys yr adroddiad hwn hefyd ystyried amcanion ein Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2022 i 2027.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad y Cyngor ac nid oes unrhyw effaith bosibl ar bobl sydd â nodweddion a ddiogelir. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar y Cynllun Corfforaethol, a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y Cynllun.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Cafodd yr adroddiad ei lunio gan y Tîm Cynllunio Strategol, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y cyngor. Mae'r wybodaeth ynglŷn â pherfformiad sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen wedi ei darparu gan wasanaethau, ac mae wedi ei chymryd o'r system reoli perfformiad Verto. Rhannwyd yr adroddiad â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 17 Tachwedd, a'r Cabinet ar 22 Tachwedd, cyn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes angen datganiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes unrhyw risg benodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Gofrestr Risgiau Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na all y Cyngor gyflawni ei swyddogaethau.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Rhan 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (pennod 1, adran 89).

11.2 Rhan 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (adran 13).

11.3 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (adran 16).

11.4 Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau a dyletswyddau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â chraffu ar berfformiad yr Awdurdod.